Adroddiad Blynyddol y Fforwm Derbyn 2016-2017

Awdurdod Derbyn: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Ysgrifennydd i'r Fforwm: Mandy Jones **Manylion cyswllt:** Amanda.Jones@bridgend.gov.uk 01656 642629

Cyfeiriad: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd, y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB

Aelodaeth o'r fforwm a phresenoldeb

Enw	Swydd	Amser a wasanaethwyd fel Aelod o'r fforwm*	Aelodaeth yn ôl categori (gweler y tabl isod)
1. Mrs A Keller	Pennaeth, Ysgol Gatholig Yr Archesgob McGrath	1 flwyddyn	**S/VA**
2. Mr R Davies	Rheolwr Grŵp, Busnes, Strategaeth a Pherfformiad (BCBC) **Cadeirydd ers canol mis Hydref 2014**	2 flynedd	**ALl**
3. Mrs S Pilcher	Pennaeth, Ysgol Gynradd Tondu	0	**S/CV**
4. Mr J Tarran	Pennaeth, Ysgol Gynradd yr Archddiacon John Lewis yr Eglwys yng Nghymru **Is-gadeirydd ers canol mis Hydref 2014**	3 blynedd	**CIW/VA**
5. Y Cynghorydd H David	Aelod y Cabinet dros Blant a Phobl Ifanc / Dirprwy-arweinydd (BCBC)	5 mlynedd	**ALl**
6. Mrs M Treharne	Swyddog Cymorth Ysgolion, Cymorth Dysgwyr (BCBC) **Cychwynnodd yr aelodaeth yng nghanol mis Mawrth 2015**	2 flynedd	**ALl**

7.	Mrs R Dixon	Pennaeth, Ysgol y Ferch o'r Sgêr	8* blynedd (ailbenodwyd Tachwedd 2016)	**S/CV**
8.	Mr W Bond	Rhiant-lywodraethwr, Ysgol Arbennig Heronsbridge	9* blynedd (ailbenodwyd Tachwedd 2016)	**PG**
9.	Mr A Slade	Pennaeth, Ysgol Gyfun Porthcawl	0	**S/CV**

Acronymau yr Aelodau Craidd		
Aelodau a Enwebwyd gan	**Aelodaeth Graidd**	**Acronym**
ALl - unrhyw aelod neu swyddog o'r awdurdod	1 i 5	**LA, LA/SEN, LA/LAC**
Cynrychiolwyr Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru	1 i 3	**CIW**
Cynrychiolwyr Esgobaethol yr Eglwys Gatholig	1 i 3	**RC**
Ysgolion - cymunedol a gwirfoddol rheoledig	1 i 3	**S/CV**
Ysgolion - sefydledig	1 i 3	**S/F**
Ysgolion - gwirfoddol dan gymorth	1 i 3	**S/VA**
Cynrychiolwyr rhieni-lywodraethwyr	1 i 3	**PG**
Cynrychiolwyr y gymuned leol	Hyd at 3:	**L/COM**

Dyddiadau cyfarfodydd a phresenoldeb

	Dyddiad	Nifer aelodau'r fforwm Presennol - yn ôl categori
Cyfarfod cyntaf	**1 Rhagfyr 2016**	**9** **(3 x Cynrychiolwyr yr ALl** **1 x yr Eglwys yng Nghymru / VA.,** **3 x Cynrychiolwyr Ysgolion,** **1 x Cynrychiolydd Llywodraethwyr** **1 cynrychiolydd ALl y tu allan i'r Sir)**
Ail gyfarfod	**15 Mawrth 2017**	**5** **(2 x Cynrychiolwyr yr ALl** **1 x yr Eglwys yng Nghymru / VA.,** **1 x Cynrychiolydd Llywodraethwyr** **1 cynrychiolydd ALl y tu allan i'r Sir)**

Cadarnhewch, os gwelwch yn dda, a yw awdurdodau derbyn o fewn ardal y fforwm wedi cwblhau'r ymgynghoriad ac wedi penderfynu ar broses y trefniadau derbyn o fewn y cyfnodau amser gofynnol dan Reoliadau Addysg (Penderfynu Trefniadau Derbyn) (Cymru) 2006 [yn cynnwys ymgynghoriad ar y trefniadau erbyn 1 Mawrth yn y flwyddyn benderfynu a phenderfynu ar y trefniadau terfynol erbyn 15 Ebrill y flwyddyn honno]. **Os oes unrhyw awdurdod derbyn heb gyflawni o fewn y cyfnodau amser gofynnol, rhowch fanylion yma.** **Faint o ddogfennau ymgynghori ydych chi wedi eu gweld gan awdurdodau derbyn(heb gynnwys awdurdodau lleol eraill)?**
Cwblhaodd yr holl awdurdodau derbyn o fewn Pen-y-bont ar Ogwr yr ymgynghoriad a phenderfynu ar y trefniadau derbyn ar gyfer 2016-17 o fewn y cyfnodau amser gofynnol dan y Rheoliadau. Nid oes dogfennau ymgynghori wedi cael eu gweld gan awdurdodau derbyn eraill, nad ydynt yn awdurdodau lleol yn ffinio â Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Pa drefniadau derbyn sydd wedi cael eu sefydlu i wasanaethu buddiannau plant agored i niwed?
A fuont yn llwyddiannus?
Pa drefniadau eraill ydych chi wedi eu nodi i gynorthwyo'r plant hyn?

Mae proses dderbyn ganolog yr ALl yn caniatáu mwy o reolaeth a monitro derbyn plant agored i niwed.

Mae dau banel derbyn penodol yn gweithredu yn Narpariaeth Amgen y Bont:

- y CAMHS (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc) a Phanel Meddygol Cymhleth, sy'n cyfarfod yn fisol; a
- y Fforwm Gosod Disgyblion, sy'n cyfarfod yn fisol ac yn ystyried disgyblion a atgyfeiriwyd ar gyfer lleoliad arbenigol i'n darpariaeth Cyflawni am Oes (A4L) a'n darpariaeth Llwybrau Cadarnhaol.

Mae Plant sy'n Derbyn Gofal (LAC) yn cael blaenoriaeth ar gyfer eu derbyn i'r ysgol o'u dewis. Bu'r tîm Cymorth i Ddysgwyr yn parhau i weithio'n agos gyda Chydlynydd Addysg LAC er mwyn sicrhau bod disgyblion LAC yn cael mynediad at ddarpariaeth addas.

Mae'r holl blant â datganiad o anghenion addysg arbennig (AAA) yn cael eu derbyn i'r lleoliad a enwyd ar y datganiad terfynol ac nid ydynt yn cael eu hystyried fel rhan o'r meini prawf gordanysgrifio.

Mae plant Personél y Lluoedd Arfog yn y DU a Gweision eraill y Goron yn cael eu trin fel rhai sydd yn y dalgylch os bydd eu ffurflen gais yn dod gyda llythyr swyddogol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD) neu'r Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad (FCO) yn datgan dyddiad dychwelyd a chadarnhad o'r cyfeiriad newydd. Gellir rhoi statws eithriedig i blant Personél y Lluoedd Arfog yn y DU a Gweision eraill y Goron (gan gynnwys diplomyddion) i ddibenion maint dosbarth y babanod pan gânt eu derbyn i ysgol y tu allan i'r rownd dderbyniadau arferol.

Hyd yma, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi gwneud trefniadau i blant o fewn chwe theulu o ffoaduriaid gael mynediad at ddarpariaeth addysg. Mae derbyniad i ysgol a chymorth yn yr ysgol yn rhan o'r pecyn cyfan o gymorth i'r teuluoedd hyn. Yn gyfan gwbl, rydym wedi derbyn dau ddisgybl ysgol feithrin, deg disgybl oed ysgol gynradd a thri disgybl oed ysgol uwchradd. Mae'r Awdurdod Lleol yn gwneud penderfyniad ynghylch y lleoliad gorau gan gymryd i ystyriaeth lawn y cyngor gan Wasanaeth Cynhwysiant yr Awdurdod Lleol ar asesiad anghenion pob plentyn a'r ddarpariaeth fwyaf priodol, yn ogystal â'r gymuned lle mae'r plentyn yn byw.

Pa mor dda mae'r gweithdrefnau derbyn o fewn y flwyddyn, y cytunwyd arnynt, wedi gweithio?
Faint o blant sydd wedi cael eu derbyn i bob ysgol dan y gweithdrefnau?
Ydych chi wedi canfod cynnydd yn y niferoedd o dderbyniadau o fewn y flwyddyn; os ydych, pa gamau sydd wedi eu nodi i fynd i'r afael â'r broblem?

Mae gan yr Awdurdod Lleol broses gadarn ac mae'r holl geisiadau yn cael eu hystyried yn erbyn nifer derbyniadau cyhoeddedig yr ysgol a threfn bresennol y dosbarthiadau.

Ym mlwyddyn academaidd 2015-16, fe wnaeth yr ALl brosesu 938 o dderbyniadau o fewn y flwyddyn: 690 o geisiadau yn y sector cynradd a 248 yn y sector uwchradd. O'r rhain, roedd yna 94 o geisiadau yn y sector cynradd a 64 yn y sector uwchradd nad aethant yn eu blaenau. O gymharu, ym mlwyddyn academaidd 2016-17, fe wnaeth tîm derbyn canolog yr ALl brosesu 1131 o dderbyniadau o fewn y flwyddyn (cynnydd o 20%); 858 o geisiadau yn y sector cynradd a 273 yn y sector uwchradd. O'r rhain, roedd yna 124 o geisiadau yn y sector cynradd a 51 yn y sector uwchradd nad aethant yn eu blaenau.

Ym mlwyddyn academaidd 2015-16, y nifer cyfartalog o ddiwrnodiau a gymerwyd i dderbyn disgybl i mewn i'r sector cynradd mewn ysgol brif lif oedd 6.88 diwrnod a 13.14 diwrnod yn y sector uwchradd. Ym mlwyddyn academaidd 2016-17, cynyddodd y nifer cyfartalog o ddiwrnodiau, a gymerwyd i dderbyn disgybl i mewn i'r sector cynradd mewn ysgol brif lif, i 11.16 diwrnod a 15.27 diwrnod yn y sector uwchradd. Y rheswm am y cynnydd yw bod yr ALl ym mis Mawrth 2017 wedi cyflwyno newid yn ei ymarfer, sy'n cyd-fynd â Chod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru, i ohirio trosglwyddiadau o hyd at dymor, lle na welir mai'r rheswm dros y cais yw symud tŷ neu lle nad oedd y plentyn wedi ei ddiffinio fel plentyn 'agored i niwed'. Pe na bai'r ALl wedi gweithredu'r newid hwn, byddai'r nifer o ddiwrnodiau cyfartalog cymharol i dderbyn disgybl yn mynd i lawr i 9.90 yn y cynradd a 13.24 yn yr uwchradd.

Pa faterion derbyn allweddol sydd wedi cael eu canfod yn yr ardal?
Beth ydynt a sut mae'r fforwm wedi ymdrin â'r rhain?

- **Llyfryn Dechrau'r Ysgol 2017-18 -** cymeradwyodd y fforwm y cynnig i'r llyfryn fod ar gael ar wefan BCBC gyda chopïau wedi eu hargraffu ar gael ar gais.

- **Polisi Derbyn Drafft 2018-19 – bu'r fforwm yn ystyried y polisi drafft a'r diwygiadau; fe wnaethant nodi'r atebion a dderbyniwyd a chymeradwyo'r polisi terfynol**.

- **Adroddiad Blynyddol -** derbyniodd y fforwm yr Adroddiad Blynyddol am 2015-16.

- **Dyddiadau Cyffredin** - derbyniodd y fforwm yr amserlen dderbyn ddrafft ar gyfer derbyniadau 2018-19 a nododd y câi hon ei dosbarthu i ysgolion gwirfoddol dan gymorth.

- **Derbyniadau ar-lein –** nododd y fforwm fod dewisiadau i ddatblygu derbyn ar-lein yn dal i gael eu harchwilio ac roedd yn cefnogi'r gwelliannau a wnaed yn y broses yn y cyfamser.

- **Rhaglen Ailsefydlu Ffoaduriaid o Syria –** mae Prif Weithredwr yr ALl yn arwain gwaith ar draws yr asiantaethau i gyflawni'r ymrwymiad i ailsefydlu teuluoedd o ffoaduriaid o Syria yn llwyddiannus i mewn i'r Fwrdeistref Sirol. Mae'r fforwm wedi cefnogi'r trefniadau a roddwyd yn eu lle o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i sicrhau bod plant o deuluoedd ffoaduriaid o Syria yn cael mynediad at ddarpariaeth addysg briodol.

- **Cyfrwng Cymraeg** – yn cysylltu â'r Cynllun Strategol Addysg Gymraeg (WESP) ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, mae'r ALl wedi datblygu dangosyddion perfformiad ar gyfer monitro'r nifer o geisiadau am drosglwyddiadau o addysg gyfrwng Cymraeg i addysg gyfrwng Saesneg.

Pa ddulliau mae'r fforwm wedi eu defnyddio i ledaenu unrhyw gyngor neu benderfyniadau a wnaed ganddo?
Rhannwyd atebion gan y fforwm i gynigion/materion gyda rhanddeiliaid allweddol, yn arbennig, ysgolion, cyrff llywodraethu, awdurdodau derbyn eraill, drwy fecanweithiau cyfathrebu arferol yr Awdurdod Lleol. Mae Cylch Gorchwyl, cofnodion cyfarfodydd ac adroddiadau blynyddol y fforwm yn cael eu cyhoeddi ar dudalen bwrpasol Fforwm Derbyn Ysgolion ar wefan BCBC.

Y dyddiad y cyhoeddwyd cyngor y fforwm ar wefan yr Awdurdod Derbyn:

Cyhoeddwyd cofnodion cyfarfod y fforwm a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2016 ar dudalen Fforwm Derbyn Ysgolion ar wefan BCBC ym mis Mawrth 2017, ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo. Cyhoeddwyd cofnodion cyfarfod mis Mawrth 2017 ar dudalen Fforwm Derbyn Ysgolion ar wefan BCBC ym mis Hydref 2017

http://www.bridgend.gov.uk/media/420166/admission-forum-minutes-11216-english.pdf

Llofnod: Amanda Jones (Ysgrifennydd i'r Fforwm)

Dyddiad:

Dychwelwch yr adroddiad wedi ei chwblhau erbyn 30 Tachwedd 2017 i:

IsadranRheoliYsgolion3@wales.gsi.gov.uk

Derbyniadau Ysgol ac Apeliadau

Enw'r Ysgol	Rhif derbyn	Nifer y ceisiadau	Nifer y ceisiadau llwyddiannus	Nifer yr apeliadau	Nifer yr apeliadau llwyddiannus	Nifer yr apeliadau a gynhaliwyd ar ôl 30 diwrnod	Nifer dewisiadau 1af, 2il neu 3ydd y rhieni a gafodd eu bodloni
Ysgol Gynradd Abercedin	30	25	25	0			25
Ysgol Gynradd Afon y Felin	15	18	18	0			18
Ysgol Gynradd yr Archddiacon John Lewis	30	29	29	0			29
Ysgol Gynradd Betws	30	27	27	0			27
Ysgol Gynradd Blaengarw	24	19	19	0			19
Ysgol Gynradd Bracla	45	40	40	0			40
Ysgol Gynradd Bryncethin	30	37	37	0			37
Ysgol Gynradd Brynmenyn	22	25	25	0			25
Ysgol Babanod Bryntirion	40	45	45	0			45
Ysgol Gynradd Caerau	45	46	46	0			46
Ysgol Gynradd Cefn Cribwr	20	19	19	0			19
Ysgol Babanod Cefn Glas	66	46	46	0			46
Ysgol Gynradd Coety	60	60	60	0			60
Ysgol Gynradd Corneli	46	30	30	0			30
Ysgol Gynradd Llangrallo	18	22	22	0			22
Ysgol Gynradd Croesty	30	30	30	0			30
Ysgol Gynradd Cwmfelin	30	27	27	0			27
Ysgol Gynradd Ffaldau	27	21	21	0			21
Ysgol Gynradd y Garth	30	19	19	0			19

Ysgol Gynradd Llidiart	60	50	50	0			50
Ysgol Iau Llangewydd	90	84	84	0			84
Ysgol Gynradd Llangynwyd	11	8	8	0			8
Ysgol Gynradd Maes yr Haul	69	59	59	0			59
Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig	46	59	59	0			59
Ysgol Gynradd Nantyffyllon	40	27	27	0			27
Ysgol Gynradd Nant-y-moel	30	18	18	0			18
Ysgol Gynradd Newton	33	27	27	0			27
Ysgol Gynradd Notais	60	43	43	0			43
Ysgol Gynradd Dyffryn Ogwr	53	39	39	0			39
Ysgol Gynradd yr Hen Gastell	50	50	50	0			50
Ysgol Gynradd Pencoed	70	64	64	0			64
Ysgol Gynradd Pen-y-bont	45	40	40	0			40
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pen y Fai	30	30	30	0			30
Ysgol Gynradd y Pîl	30	30	30	0			30
Ysgol Gynradd Plasnewydd	45	22	22	0			22
Ysgol Gynradd Porthcawl	25	21	21	0			21
Ysgol Gynradd y Santes Fair	30	34	34	0			34
Ysgol Gynradd y Santes Fair a Sant Padrig	25	25	25	0			25
Ysgol Gynradd Sant Robert	22	27	27	0			27
Ysgol Gynradd Tondu	42	33	33	0			33
Ysgol Gynradd Trelales	30	28	28	0			28
Ysgol Gynradd Tremain	65	64	64	0			64
Ysgol Gynradd Tynyrheol	10	14	14	0			14

Ysgol Gynradd West Park	55	50	50	0			50
Ysgol Gymraeg Bro Ogwr	54	65	65	0			65
Ysgol Gynradd Gymraeg Cwm Garw	30	22	22	0			22
Ysgol Gynradd Gymraeg Cynwyd	45	39	39	0			39
Ysgol y Ferch o'r Sgêr	33	33	33	0			33
Ysgol yr Archesgob McGrath	131	157	134	7	4	0	157
Ysgol Gyfun Brynteg	333	217	217	0			217
Ysgol Gyfun Bryntirion	210	241	241	0			241
Coleg Cymunedol Y Dderwen	276	207	207	0			207
Ysgol Gyfun Cynffig	180	130	130	0			130
Ysgol Gyfun Maesteg	228	169	169	0			169
Ysgol Gyfun Pencoed	214	142	142	0			142
Ysgol Gyfun Porthcawl	246	194	194	0			194
Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd	165	104	104	0			104
Cyfanswm	-	3251	3228	7	4	0	3251